| | |
|---|---|
| | **EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD, MALDWYN 2024** |
| | Cystadleuaeth 146 - Perfformiad Theatrig o Sgript Bl.6 ac iau |
| | **Detholiad o 'Brenin y Trenyrs', Pryderi Gwyn Jones** |

## Detholiad o 'Brenin y Treinyrs' Pryderi Gwyn Jones

X: **(I'r gynulleidfa)**

Mae yna lot o waliau yn y byd – Wal Fawr China, y wal 'na efo'r graffiti 'Cofiwch Dryweryn' arni hi, a Wal Berlin. Ond y wal liwgar yma ydy pob dim i mi. Nefoedd i fi ydy ei gweld hi. Uffern i fi ydy gorfod gadael heb fedru prynu dim byd. Byth. Hon 'di Wal y Treinyrs. A'r pâr mwya' cŵl dwi 'rioed wedi gweld. Yr Adidas ZX1000000!

**(Mae Dyl ac Ieu yn rhedeg i'r llwyfan.)**

Dyl: Ti'n gwbod bod fy mhen-blwydd i cyn bo hir, dwyt?

X: Yndw Dyl, a ti'n gofyn am y Nike Aur Turbo Pegasus du melyn 'na.

Dyl: Dyna o ni'n gobeithio'i gael ond ma Mam 'di deud eu bod nhw'n rhy ddrud rŵan.

X: Be am i ti gynnig talu am eu hanner nhw?

Dyl: Sgin i'm pres, nagoes!

X: Pres pen blwydd?

Dyl: Na, dim llawer.

Ieu: Ffeindia job fel sy gen i. Os basat ti'n gweithio am dy bres, fasat ti ddim isio ei wario ar ryw sgidia rhedeg gwirion.

Dyl: Ti'n lwcus fod y sied wyau 'na wrth ymyl lle ti'n byw. Faint ti'n gael bob awr?

Ieu: Tair punt a naw deg ceiniog.

X: Hynny'n reit dda. Rhywbeth tebyg ma Lisa'n gael yn y caffi ac ma hi'n gorfod golchi llestri a phlicio tatws a phetha felly o hyd.

Dyl: Dyna be ti'n i wneud os ti'n gweithio mewn caffi, ynde'r clown.

Ieu: Mae'n anodd hel pres pan dach chi'n gorfod dod i'r ysgol bob dydd.

**(Saib)**

Dyl: Mae gen i syniad am sut i wneud pres!

Ieu ac X: Sut?

Dyl: Wel. Meddyliwch pa bres ydan ni'n gael bob dydd?

**(Y ddau arall yn meddwl).**

Bois bach, o'n i'n gwbod bo' chi'n hyll, ond do'n i ddim yn gwbod bo' chi'n hollol dwp hefyd. Meddyliwch pa bres ydach chi'n gael bob dydd?

X: Pres cinio?

Dyl: Jiniys!

Ieu: Ma pres cinio i brynu cinio.

Dyl: Ydy iawn, ond dyna'n incwm cyson ni 'de.

Ieu: Incwm cyson! Be wyt ti rŵan, rheolwr banc? Mae'n rhaid imi gael cinio. Faswn i bron â llwgu os faswn i'n mynd heb ginio.

Dyl: Ond mi fasat ti'n cael cinio paid â phoeni. Ti fasa'n gwneud dy ginio dy hun noson cynt.

X: Be? Gwneud brechdan slei i ni'n hunain bob nos, a pheidio prynu cinio efo'r pres cinio?

Dyl: Yn union? Erbyn diwedd y tymor mi fasa gynnon ni ddigon o bres i brynu pâr o ZXs bob un! Wel, be dach chi'n feddwl?

Ieu: Cinio ysgol bod dydd i fi. Dwi'n tyfu a dwi ddim 'isio byw ar ryw friwsion a hanner banana i ginio bod dydd. Tatws a grefi i fi.

X: Reit, well i ni gychwyn arni fory.

Dyl: Amdani. Dan ni am fod yn gyfoethog!

…………………………………………………………………………………………………

Dyl: Dwi isio bwyd!

X: Lle ma dy frechdan di?

Dyl: Doedd 'na ddim bara ar ôl yn y tŷ neithiwr.

X: Does gen inna ddim digon i rannu efo ti, sori.

Dyl: Na mae’n iawn. Gas gen i y pethe Ryvita ma. Fel bwyta cardbord.

X: Ti fod i gael rhywbeth arnyn nhw, yn dwyt. Caws neu rwbath, yn de?

Dyl: Mi fasa’n syniad i ni gael rwbath wrth gefn ar gyfer dyddia fel hyn.

**(Mae Dyl yn edrych o gwmpas).**

Arhosa ar ôl am ‘chydig

X: Pam?

Dyl: I nôl potyn o uwd yn barod at wedyn.

X: Be? Ti di prynu potyn uwd?

Dyl: Dwi di prynu potia o’r peth! Ro’n nhw bron â chael eu lluchio. Ges i nhw am hanner pris. Deg potyn! Bargen! Dwi wedi cuddio nhw yn to fyny fan ‘na,

X: Ma’n rhaid bod yna le gwell i’w cuddio nhw! Os gawn ni’n dal...

Dyl: **(yn gafael mewn cadair)**

Dyma’r lle gora! Gawn ni ddim ein dal. Iawn, mae’n glir.

**(Mae’n sefyll ar y gadair.)**

Deud wrtha i yn syth bin os oes ‘na rywun yn dod.

X: Iawn siŵr.

**(Mae X yn edrych i un cyfeiriad. Daw athro o’r cyfeiriad arall).**

Athro: A be dach chi’ch dau yn gwneud yn dili dalio fan ‘ma?

Dyl: Meddwl tybed os oes ‘na drip ysgol flwyddyn nesa, Syr/Miss.

Athro: Trip ysgol? Aros i ni gael un ‘leni o’r ffordd gynta’, ia? Allan o ‘ma rŵan. Diflannwch!

Dyl: Whiw. Agos yn fan’na.

X: Trip ysgol? ‘Sa’n well ‘sa ti ‘di gofyn am gael gweld yr eiddo coll. Deud dy fod wedi colli siorts neu rwbath.

Dyl: Mm. Ti’n iawn, ond wnes i’n dda i feddwl yn sydyn am rwbath, do! Wnes i ddim dy glywed di’n deud dim byd.

X: Ro’n i trio cuddio potyn o uwd oedd wedi dod lawr o’r awyr am ryw reswm, yn do’n!

Dyl: Joban dda ‘fyd. Diolch i ti.